

Mae'r isod yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau Awdurdod S4C yn ystod ei gyfarfod ddydd Gwener, 23 Ionawr 2004.

Cydymdeimlad

Mynegodd Aelodau dristwch mawr o ddeall fod Gareth Lloyd Williams wedi marw o dan amgylchiadau trasig iawn y diwrnod cynt. Bu hwn yn wr hynod greadigol a wnaeth waith eithriadol i S4C yn y maes drama dros y blynyddoedd. Fe fyddai'r Prif Weithredwr yn ymweld â'r teulu dros y penwythnos i gyfleu ei gydymdeimlad personol ef a phawb yn S4C.

Apêl Elusennol S4C

- (a) Adroddwyd bod Apêl 2003 bellach wedi dod i ben a taw'r cyfanswm wedi'i godi oedd £156,000, gyda Ty Hafan a Thy Gobaith yn derbyn £78,000 yr un. Roedd yr Aelodau'n hapus dros ben gyda'r swm llwyddwyd i'w godi ac roedd hyn yn adlewyrchu'r ymdrech fawr yr oedd staff S4C a phawb oedd yn gysylltiedig â'r Apêl wedi ei wneud dros y flwyddyn.
- (b) Adroddodd Cefin Campbell, Cadeirydd yr Apêl, fod cyfweiliadau bellach wedi'u cynnal ar gyfer yr elusen i'w chefnogi yn 2004. Penderfyniad y panel cyfweld oedd mai Barnados ddylai elwa o'r apêl eleni. Roedd cynrychiolwyr yr elusen wedi rhoi cyflwyniad ardderchog ar y diwrnod ac yr oedd hi'n argoeli'n dda fod gan Barnados dîm brwdfrydig o bobl fyddai'n gallu cynnig cefnogaeth i'r gwaith o gynnal gweithgareddau, ac ati, yn ystod y flwyddyn i ddod.

Adolygiad Allanol S4C

Roedd y DCMS bellach wedi dweud ei bod yn agosau at fedru gwneud cyhoeddiad ynglyn ag arolygwyr. Cytunwyd y byddai neges yn cael ei ddanfon at Aelodau'r Awdurdod unwaith fod yna newyddion ar gael ar y mater hwn.

Cyfarwyddwr Ofcom yng Nghymru

Cyfeiriwyd at y ffaith fod Rhodri Williams (oedd am y tro hefyd yn Gadeirydd ar Fwrdd yr Iaith) wedi'i benodi fel Cyfarwyddwr Ofcom yng Nghymru. Teimlwyd bod hwn yn benodiad da o safbwynt teledu Cymraeg yn sgil ei wybodaeth am y cyfryngau a sefyllfa'r iaith yng Nghymru.

Adolygiad Siarter y BBC

Roedd y Cadeirydd wedi mynychu cinio a gynhaliwyd gan y BBC yng Nghaerdydd ar gyfer nifer detholedig o bobl. Pwrpas y noson oedd i wahodd sylwadau am y BBC fel rhan o broses ymgynghori ar gyfer adolygu Siarter y BBC. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i fynegi'r modd y byddai S4C yn dymuno gweld y berthynas rhwng y ddau ddarlledwr yn datblygu yn y dyfodol.

Ofcom

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y ffaith fod yna nifer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd wedi digwydd yn ystod y pythefnos a fu yn ymwneud ag Ofcom. Yn benodol, cyfeiriodd at yr isod:

- (a) Adolygiad Gwasanaeth Darlledu Cyhoeddus – roedd swyddogion Ofcom wedi ymweld ag S4C yn ystod yr wythnos ddiwethaf i drafod yr adolygiad darlledu cyhoeddus ym Mhrydain. Roedd y cyfarfod yn ffurfio rhan o'r ymchwil ansoddol roedd Ofcom yn ei wneud a thrafodwyd pynciau yn ymwneud â themâu darlledu cyhoeddus yn gyffredinol a phersbectif S4C arnynt. Roedd S4C eisoes wedi bod wrthi yn darparu manylion maith ar gyfer y gwaith ymchwil meintiol yr oedd Ofcom yn ei wneud ar gyfer yr ymarfer hwn.
- (b) Lawns Ofcom – adroddwyd bod y Prif Weithredwr wedi mynychu lawns swyddogol Ofcom a gynhaliwyd yn Llundain.
- (c) Rheoleiddio Hysbysebion - roedd y Prif Weithredwr wedi mynychu'r cyfarfod hwn ar 21 Ionawr, lle trafodwyd hunan-reoleiddio ar gyfer darlledu hysbysebion.
- (ch) Codau Ymarfer ar Gomisiynu – ar 21 Ionawr, mynychodd y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd gyfarfod Ofcom gyda darlledwyr a chwmnïau annibynnol lle trafodwyd codau ymarfer ar gomisiynu.
- (d) EPGs – bu'r Prif Weithredwr ar lwyfan yn y Westminster e-Forum, lle trafodwyd papur ymgynghorol Ofcom ar EPGs ac 'access'.

Adolygiad S4C

Ystyriodd yr Awdurdod ddrafft diweddaraf y papur ar yr adolygiad mewnol. Gwnaethpwyd rhai sylwadau pellach am bwyntiau i'w hymgorffori yn y ddogfen derfynol. Cytunwyd y dylid rhoi sêl bendith yr Awdurdod ar y papur ar yr adolygiad ar yr amod bod sylwadau'r Awdurdod yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

Côd Ymarfer ar Gomisiynu Rhaglenni

Trafododd yr Aelodau bapur a wnaeth gyflwyno'r sefyllfa ddiweddaraf ar y Côt Ymarfer ar Gomisiynu Rhaglenni. Canolbwyntiodd drafodaeth yr Awdurdod ar: effaith y Côt ar y trafodaethau byddai'r Adran Raglenni yn ei gael gyda chynhyrchwyr a negydu cytundebau; ymateb TAC i'r hyn oedd gerbron; a'r sefyllfa o ran sawl gwaith gellid ail-ddangos rhaglen o fewn pecyn darlledu ar S4C. Cytunwyd y dylid rhoi sêl bendith yr Awdurdod ar y Côt Ymarfer yn ei ffurf ddiwygiedig.

Nawdd

Ystyriodd yr Awdurdod nifer o geisiadau am nawdd a chytunwyd y dylid cefnogi'r canlynol:

Gwyl Teledu Caeredin
Diwrnod Gwybodaeth Gyrfaoedd yn y Cyfryngau yng Nghymru
Eisteddfod y Dysgwyr Conwy, Dinbych, Sir y Fflint a Wrecsam
Cynhadledd Gwanwyn VLV
Yr Urdd
Cymdeithas Ffermwyr Ifanc
Sgrin Cymru
WNO Tymor Llundain
Bafta Cymru
Welsh International Black Film Festival
IWA

Cydymffurfiaeth

- (a) Adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth - Ystyriwyd adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth yn deillio o'r cyfarfod ar 9 Ionawr 2004. Nid oedd unrhyw faterion penodol i dynnu sylw'r Awdurdod atynt ar hyn o bryd, ond amgaewyd adroddiad yr Uned Fonitro ar y gwaith ymchwil wedi'i wneud ar y sylw a roddir i'r gwahanol leoliadau a rhanbarthau yng Nghymru. Nodwyd bod pob ardal wedi ymddangos o fewn y tair wythnos dan sylw, er bod rhai yn ymddangos yn gyson iawn (e.e. Sir Gaerfyrddin, Arfon-Dwyfor), tra cafodd eraill tipyn llai o sylw (e.e. Brycheiniog). Er hynny, roedd cydbwysedd cyffredinol rhwng y tri rhanbarth, gyda'r Gogledd yn derbyn 34% o'r sylw; y Canolbarth yn cael 37%; a'r De yn derbyn 29%.
- (b) Llythyr oddi wrth Eluned Morgan, ASE – Yn ychwanegol i adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth, cyfeiriodd y Cadeirydd at lythyr yr oedd hi wedi'i dderbyn oddi wrth Eluned Morgan, ASE, oedd yn cwyno am y rhaglen a ddarllledwyd yn dathlu penblwydd Dafydd Iwan yn 60 oed. Roedd Ms Morgan o'r farn nad oedd hi bellach yn dderbyniol i S4C ddarlledu rhaglen o'r fath ar Dafydd Iwan yn sgil ei swyddogaeth newydd fel Llywydd Plaid Cymru. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ddelio â'r mater hyn yn uniongyrchol ei hun.

Rhestr Ddiddordebau Aelodau'r Awdurdod

Cyflwynwyd rhestr ddiddordebau drafft oedd yn adlewyrchu'r hyn yr oedd wedi'u datgan gan Aelodau'r Awdurdod yn Ionawr 2004 a gofynnwyd i'r Aelodau gadarnhau bod y manylion oedd yn ymddangos yn gyflawn ac yn gywir. Yn ôl y drefn arferol, cytunwyd y dylid cyhoeddi'r rhestr ar safle we S4C, gyda chopïau ar gael i'r cyhoedd i'w gweld yn swyddfeydd y Sianel yng Nghaerdydd a Chaernarfon.

Rhaglen Waith ar gyfer Cyfarfodydd yr Awdurdod yn 2004

Cytunwyd ar raglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cyflwyniad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol

Rhoddodd y Pennaeth Adnoddau Dynol gyflwyniad ar waith ei hadran. Dechreuodd drwy roi amlinelliad o amcanion yr adran ac aeth ymlaen i roi manylion o'r ddeddfwriaeth faith bu rhaid ei ystyried yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn ogystal â'r polisiau yr oedd yr adran wedi'u cyhoeddi. Yna, amlinellodd natur gwaith yr adran o ran: cyfleoedd cyfartal; cyflogau; recriwtio; amodau gwaith; cyflwyno staff i S4C; a hyfforddiant a datblygu. Rhoddodd fanylion o'r gwahanol gyrsiau wedi'u trefnu ar gyfer staff ac esboniodd sut yr oedd y rhain yn berthnasol i'r nodau o fewn y Cynllun Corfforaethol/cynlluniau adran. Tynnodd sylw hefyd i'r ffaith fod S4C wedi ennill y wobwr Buddsoddwyr Mewn Pobl am yr eilwaith. Daethpwyd â'r cyflwyniad i ben trwy roi nifer o ystadegau ynglyn â'r gweithlu yn nhermau rhaniad gwryw/benyw (a'r fath o swyddi yr oeddynt ynddynt); oedran; hyd wasanaeth; rhesymau dros adael, ac ati.

Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Cofnodion Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 5 Rhagfyr 2003.
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol.